Papur 13

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

—

**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Cadeiryddion y Pwyllgorau

18 Chwefror 2022

**Canfyddiadau ymgysylltiad ynghylch blaenoriaethau'r Chweched Senedd â phlant a phobl ifanc**

Annwyl Gadeiryddion y Pwyllgorau

Fel rhan o'r ymgynghoriad a gynhaliwyd gennym i lywio ein blaenoriaethau ar gyfer y Chweched Senedd, cynhaliodd tîm ymgysylltu â dinasyddion y Senedd gyfres o weithgareddau ymgysylltu â phlant a phobl ifanc ar ein rhan. Diben yr ymgysylltiad hwnnw oedd dysgu mwy am yr hyn sydd bwysicaf i blant a phobl ifanc.

Clywodd y tîm ymgysylltu â dinasyddion yn uniongyrchol gan 127 o blant ar draws saith sesiwn. Ymgysylltwyd â phlant a phobl ifanc ledled Cymru, mewn ystod amrywiol o leoliadau. Roeddent yn targedu plant yr ydym ni fel Pwyllgor yn ei chael yn anodd eu cyrraedd, megis plant o dan 12 oed a phlant o deuluoedd incwm isel. Adroddodd y tîm eu canfyddiadau inni yn ystod ein cyfarfod ar 27 Ionawr.

Cefais i a'm cyd-aelodau o'r Pwyllgor ein synnu gan yr eglurder a oedd gan y plant a'r bobl ifanc i gyfleu eu pryderon a'u blaenoriaethau. Daeth themâu clir i'r amlwg o'r gwaith ymgysylltu, gyda manylion sy'n adlewyrchu amrywiaeth y plant a gyfrannodd a'u profiadau gwahanol o'r byd o'u cwmpas. Trafodwyd datgoedwigo, sbwriel, ynysu cymdeithasol, iechyd meddwl, tlodi, amseroedd aros ysbytai, seilwaith, amrywiaeth, y cyfryngau cymdeithasol a llawer mwy. Roeddent yn rhannu eu safbwyntiau – a'u gweledigaethau ar gyfer Cymru well – yn glir ac yn groyw.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, roeddem yn teimlo'n gryf y dylem ei rannu â chi. Mae popeth a godwyd gan y plant a phobl ifanc yn uniongyrchol berthnasol i o leiaf un Pwyllgor arall o'r Senedd. Mae llawer ohono'n berthnasol i wahanol Bwyllgorau, a dylai rhywfaint ohono atseinio gyda phob un ohonom.

Rwyf felly wedi atodi adroddiad y tîm ymgysylltu â dinasyddion i'r llythyr hwn. Gobeithiaf y gallwch ddod o hyd i'r amser i'w ystyried a chynnwys ei ganfyddiadau yn eich gwaith.

Rwy'n sylweddoli bod cymaint o waith i bwyllgorau'r Senedd ei wneud, a gall ymddangos fel pe na bai byth ddigon o amser i wneud y cyfan. Mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg felly'n croesawu'n fawr unrhyw gyfleoedd i gydweithio lle bo hynny er budd inni gyd fel pwyllgorau – neu'n bwysicach, er lles plant a phobl ifanc Cymru.

Yn gywir

Jayne Bryant AS

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Senedd Cymru
**Ymgysylltu â Dinasyddion**

# Blaenoriaethau pobl ifanc ar gyfer y Pwyllgor yn y Chweched Senedd

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Ionawr 2022

Yn ystod haf 2021, cynhaliodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (*y Pwyllgor* o hyn ymlaen) ymgynghoriad agored gyda'r bwriad o ddeall blaenoriaethau rhanddeiliaid ar gyfer y Pwyllgor yn ystod tymor y Chweched Senedd. Paratowyd crynodeb o'r ymatebion gan Wasanaeth Ymchwil y Senedd.

Ym mis Hydref 2021, cytunodd y Pwyllgor i ganfod barn plant a phobl ifanc i ddeall ymhellach y materion maent yn poeni amdanynt ac i lywio cynllun strategol y Pwyllgor.

Oherwydd ehangder y data ymgynghori sydd ar gael yn gyhoeddus yn sgil gwaith ymgysylltu a gynhaliwyd â phlant 12 oed a hŷn (*pobl ifanc* o hyn ymlaen), cynhaliwyd ymgynghoriad â phwyslais gyda phlant 11 oed ac iau (*plant* o hyn ymlaen) i lenwi bwlch gwybodaeth ac, felly, cael yr effaith fwyaf ar y wybodaeth y mae'r pwyllgor yn ei chael.

I sicrhau bod lleisiau o bob oedran yn cael eu clywed, cytunodd y Pwyllgor i siarad ag un grŵp o bobl ifanc hefyd.

## Methodoleg

Roedd y dull a ddefnyddiwyd ar gyfer y darn hwn o waith yn hwyluso sgyrsiau i'w galluogi i gasglu gwybodaeth am fywydau plant a'u safbwyntiau. Defnyddiwyd dull ansoddol yn bennaf. Gan ddefnyddio'r egwyddorion canlynol o fframweithiau cyfranogol, cynlluniwyd y gwaith ymgysylltu er mwyn:

- Sicrhau gofod diogel a chyfathrebol, lle nad oedd cyfranogwyr yn teimlo bod ateb 'cywir' neu 'anghywir' i'r cwestiynau a ofynnwyd iddynt, oherwydd gallent fod wedi arfer â hyn yng nghyd-destun yr ysgol.
- Cynnwys grwpiau a oedd yn llai gweladwy, naill ai'n gyffredinol o fewn ymgynghoriadau'r Pwyllgor neu o'r ymchwil a wnaed eisoes. Cyflawnwyd hyn trwy dargedu grŵp oedran o dan 12 oed a chynnwys un grŵp yn unig o bobl ifanc. Hefyd, roedd pob un o'r grwpiau ysgolion yn dod o ysgolion sy'n cynnig Prydau Ysgol Am Ddim i dros 40 y cant o'u disgyblion.
- Cynnig amrywiaeth o opsiynau ar gyfer ymgysylltu a oedd yn addas i gyfranogwyr unigol, er enghraifft, roedd y dull hwn yn caniatáu i gyfranogwyr gyfrannu'n weledol, ar lafar, yn ysgrifenedig neu drwy arlunio.

## Sampl

Cynhaliwyd saith sesiwn gyda 127 o blant a phobl ifanc. Roedd y cynulleidfaoedd yn cynnwys:

- Plant a phobl ifanc sy'n cael addysg gartref. Cynhaliwyd sesiwn galw heibio yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru wedi'i hwyluso gan staff y Senedd.
- Plant sy'n cael addysg mewn ysgol gynradd. Cynhaliwyd tair sesiwn mewn ystafell ddosbarth dan arweiniad staff y Senedd neu staff yr ysgol. Roedd y cyfranogwyr yn dod o'r ysgolion canlynol; Ysgol Ffordd Dyffryn, Llandudno; Ysgol Gynradd Trinant, Caerffili ac; Ysgol Gynradd Ringland, Casnewydd.
- Plant ysgol feithrin. Cynhaliwyd dwy sesiwn mewn meithrinfa gan staff y feithrinfa yn y lleoliad ac yn eu hardal leol. Roedd y cyfranogwyr yn dod o Gylch Chwarae Thornhill, Cwmbrân.
- Pobl ifanc. Cynhaliwyd sesiwn rithwir gan ddau Aelod o'r Senedd gyda chymorth gan staff y Senedd. Roedd y cyfranogwyr yn dod o Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru (*CFfI* o hyn ymlaen).

Ar gyfer y dull hwn, dylai maint y sampl hwn ddarparu digon o ddata i fynd i'r afael â nodau'r gwaith hwn ac ategu gwaith ymchwil presennol sy'n seiliedig ar Gymru gyfan.

## Y dull gweithredu

Gwahoddwyd pob grŵp i gymryd rhan wyneb yn wyneb. Cyflwynwyd cyfanswm o dair sesiwn gan staff y Senedd wyneb yn wyneb. Cyflwynwyd dwy sesiwn yn ddigidol gan

staff y Senedd a chyflwynwyd dwy sesiwn gan y lleoliad. Cynhaliwyd y ddwy sesiwn a gyflwynwyd gan staff y lleoliad yn y feithrinfa, sef dull a argymhellir ar gyfer y grŵp oedran hwn oherwydd gall cyflwyno person newydd i gyfranogwyr ifanc iawn dynnu sylw ac effeithio ar y broses o gasglu canlyniadau dilys.

Datblygwyd cynllun pob sesiwn grŵp o amgylch y cwestiynau cyffredinol canlynol:

1. Pe gallech chi greu "gweledigaeth berffaith o Gymru" beth fyddech chi'n ei gynnwys?
2. Beth ydych chi'n ei hoffi fwyaf am Gymru? Pam?
3. Beth nad ydych chi'n ei hoffi am Gymru a pham fyddech chi eisiau gweld llai o hyn?
4. Beth hoffech chi ei newid am Gymru pe bai modd i chi wneud hynny?

Cyn y sesiwn, gwahoddwyd pob grŵp i ateb y cwestiynau hyn gyda ffotograffau. Ym mhob sesiwn, ac eithrio'r digwyddiad rhithwir gyda'r CFfI, defnyddiwyd mapiau A0 o Gymru a phobl wedi'u gwneud o bapur fel adnodd i'w hannog i rannu eu barn am y cwestiynau hyn. Gallwch weld lluniau o rai o'r mapiau yn Atodiad A.

Yn ystod pob sesiwn, byddai staff yn archwilio'r rhesymeg ar gyfer yr hyn yr oedd y bobl ifanc yn ei greu gan ofyn cwestiynau nad oedd yn eu harwain i ateb mewn ffordd benodol. Casglwyd dyfyniadau gair am air i ychwanegu cyd-destun at eu lluniau, eu marciau a'r mapiau a grëwyd ganddynt. Roedd hyn yn galluogi'r bobl ifanc i ddadansoddi eu myfyrdodau a'u safbwyntiau ac yna eu cyfleu ar lafar.

Roedd **cyfraniad Aelodau** a'u presenoldeb mewn sesiynau wyneb yn wyneb wedi'u cyfyngu gan y rheoliadau Covid parhaus. Fodd bynnag, roedd Jayne Brant AS (Cadeirydd y Pwyllgor) a James Evans AS (Aelod o'r Pwyllgor) yn gallu bod yn bresennol yn y sesiwn rithwir a gynhaliwyd gyda'r CFfI.

## Y canfyddiadau allweddol

Mae'r data a gasglwyd ym mhob sesiwn wedi'u dadansoddi a chaiff y canfyddiadau allweddol eu nodi isod. Y themâu allweddol oedd y themâu mwyaf cyffredin a ddaeth i'r amlwg o'r data. Mae llawer o'r themâu yn gysylltiedig ag Erthyglau o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Caiff y dyfyniadau gair-am-air eu harddangos mewn blychau llwyd. Caiff y themâu eu dangos yn ôl pa mor gyffredin oeddent, gyda'r mwyaf cyffredin yn gyntaf:

### Pryderon amgylcheddol


Erthygl 12: Eich hawl i ddweud beth ddylai digwydd ac i rywun wrando arnoch.

**Pryderon amgylcheddol oedd y prif ffocws** ar bron bob un o'r mapiau yn ogystal ag yn y sesiwn rithwir gyda'r CFfI, a chawsant eu darlunio â ffotograffau.

Gellid rhannu sylwadau yn:

a) rhai a ddangosodd ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad o'r amgylchedd, natur a bywyd gwyllt;

Yn y feithrinfa, roedd dau blentyn yn hoffi'r mynyddoedd gerllaw; fe ddywedon nhw 'mynd i'r mynyddoedd gyda dadi' a 'Dwi'n hoffi mynyddoedd hefyd'.




Fe wnaeth cyfranogwyr o'r ysgolion dynnu lluniau yn eu hardaloedd o harddwch naturiol lleol a sôn am fannau prydferth yr oeddent yn hoffi ymweld â nhw.





Roedd anifeiliaid gwyllt a chaeth hefyd yn ymddangos yn y delweddau:





b) apeliadau am wneud eu hardal leol yn fwy glân;




Fe wnaeth cyfranogwyr mewn ysgolion dynnu lluniau o sbwriel a rhannu pryderon am faint o sbwriel sydd yn eu hardaloedd. Roedd ffocws penodol ar blastig.

Yn y feithrinfa roedd nifer o blant yn cytuno nad oeddent yn hoffi sbwriel a dywedodd un plentyn 'rhoi sbwriel yn y bin'.

Soniwyd ar lafar sawl gwaith am faw cŵn a thynnodd y plant ei lun unwaith. Dim ond un llun a ychwanegwyd at y map (dywedodd staff y feithrinfa ‘byddai'r map wedi'i orchuddio â lluniau o faw cŵn fel arall!’) Dywedodd un plentyn ‘ych a fi!’ ‘Mae sbwriel yn mynd yn y bin’, ‘dyw sbwriel ddim yn mynd fan’na’ a ‘falle bydd rhywun yn sefyll ynddo’ mewn perthynas â baw cŵn.




Y sylwadau gan blant a phobl ifanc eraill i ategu’r pryderon am yr amgylchedd lleol oedd:

*Mae yna lygredd ym mhobman ac mae angen mwy o finiau sbwriel* – plentyn 9-11 oed

*Aethon ni allan i gasglu sbwriel, a chawsom sawl llond bag o blastig* – plentyn 9-11 oed

*Rhaid cadw'r môr/traethau yn lân* – cyfrannwr a addysgir gartref

*(Gofynnodd yr hwylusydd: beth nad wyt ti'n ei hoffi am Gymru?) Y sbwriel gan ei fod yn effeithio ar yr anifeiliaid* – plentyn 9-11 oed

*(Gofynnodd yr hwylusydd: Beth nad wyt ti'n ei hoffi am Gymru?) Yn gyntaf, mae gennyn ni lygredd, ac os yw hwnnw'n mynd i'r môr gall lygru'r blaned. Gall achosi mwy o danau, mwy o stormydd ac mae hynny'n effeithio arnom ni. (Gofynnodd yr hwylusydd: Lle mae'r sbwriel?) Ni yw un o'r goreuon am beidio llygru, ond rydw i'n gweld pobl yn gollwng papurau ar y llawr wrth iddyn nhw ddod o'r siop. (Gofynnodd yr hwylusydd: Beth allwn ni ei wneud am hyn, beth yw dy syniadau di?) Efallai y gallen ni ychwanegu llai o blastig i rai pethau a all ddefnyddio cardfwrdd, oherwydd mae yna lot o bethau plastig mewn siopau wrth ichi gerdded i mewn* – plentyn 9-11 oed

*Stopio defnyddio plastig, rhoi dirwy i bobl am lygru a gellid rhoi camerâu ym mhobman ar bob stryd* – plentyn 9-11 oed

*Allwn ni ddim gwahardd plastig, mae'n siŵr bod dal angen ei ddefnyddio ar gyfer gwahanol bethau yn does, ond gallwn gael gwared ar rywfaint o blastig. Mae angen i ni fod y wlad orau yn y byd o ran ailgylchu, fel na fydd dim sbwriel yn y strydoedd* – plentyn 9-11 oed

c) Ac; apeliadau i weithredu yn erbyn y pethau sy'n peryglu'r amgylchedd ym marn y plant a phobl ifanc.

Roedd sylwadau a gasglwyd o'r mapiau neu a rannwyd ar lafar yn cynnwys:

*Stopio lladd anifeiliaid a stopio defnyddio gwellt plastig* – plentyn 9-11 oed

*Cael gwared ar rai plastigau* – plentyn 9-11 oed

*Ffyrdd haws o ailgylchu a llai o blastig mewn pecynnau yn archfarchnadoedd Cymru* – cyfrannwr a addysgir gartref

*Mwy o goed, ddylen ni ddim torri'r holl goed* – plentyn 9-11 oed

*(Gofynnodd yr hwylusydd: Beth nad wyt ti'n ei hoffi am Gymru?) Dadgoedwigo. (Gofynnodd yr hwylusydd: Yng Nghymru neu yn y byd?) Yn y byd. (Gofynnodd yr hwylusydd: Ydi hynny'n ein heffeithio ni yma yng*

*Nghymru?) Ydi. (Gofynnodd yr hwylusydd: Beth ddylen ni fod yn ei wneud?) Yn hytrach na thorri coed, dylen ni fod yn eu plannu* – plentyn 9-11 oed


*Llai o danau gwyllt oherwydd ein bod ni'n cael lot o danau gwyllt yn y mynyddoedd. Maen nhw'n lladd anifeiliaid ac yn beryg i bobl* – plentyn 9-11 oed


*(Gofynnodd yr hwylusydd: Beth nad wyt ti'n ei hoffi am Gymru?) Ceir, dydw i ddim yn eu hoffi nhw gan eu bod nhw'n llygru'r aer. Mwy o feicio a cherdded i'r ysgol, ceir trydan yn hytrach na tanwydd ffosil* – plentyn 9-11 oed.


*Ceir gwyrdd yn unig – adeiladu llai o ffyrdd* – cyfrannwr a addysgir gartref


*Rwy'n meddwl bod pethau fel y ffi o 5c am fag plastig yn gwneud gwahaniaeth mawr oherwydd cyn hynny rwy'n cofio mynd ar wyliau yn Lloegr ac roedd cymaint o wastraff plastig o'i gymharu â Chymru. Rwy'n meddwl ei fod yn bwysig inni feddwl mwy am yr amgylchedd fel yr oedden ni pan wnaeth y ffi 5c ddod i rym. Mae gennyn ni amgylchedd a thirwedd mor hardd yng Nghymru. Dwi'n meddwl ein bod ni'n gwneud llawer hefyd. Ond gallwn ni wneud mwy.* – Cyfrannwr o CFfI.

Casglwyd y lluniau hyn o'r sesiynau mewn ysgolion:






Fe wnaeth cyfranogwyr mewn ysgolion rannu lluniau roeddent wedi'u tynnu o sbwriel yn eu hardal a phresenoldeb ffynonellau ynni adnewyddadwy yn eu hardal leol:






## Diogelwch yng nghyd-destun ymlacio a chwarae


Erthygl 31: Eich hawl i ymlacio a chwarae.

Mynegodd plant a phobl ifanc ar draws llawer o grwpiau pa mor bwysig oedd chwarae iddynt.


> *Geiriau sy'n crynhoi'r agweddau gorau o Gymru i mi – rhyddid, creadigrwydd, cadernid – cyfrannwr a addysgir gartref*

Yn y sesiynau meithrin, roedd thema amlwg yn ymwneud â chwarae a mwynhad yn y feithrinfa ac yn eu hardal leol. Roedd y plant eisiau tynnu llun o ardd y cylch chwarae gan ddweud 'Dwi'n chwarae mewn mwd'. Roedd un o'r plant hynaf eisiau llun o flaen y 'pili-pala mawr' ac ymunodd y plant eraill gan ddweud 'chwarae gyda theganau', 'tynnu lluniau' a 'sticeri'.











Fodd bynnag **roedd rhai cyfranogwyr yn cael trafferth dod o hyd i leoedd i chwarae** am wahanol resymau:

> *Dydw i ddim wir yn mynd allan oherwydd does dim llawer i'w wneud ac efallai y bydd Mam yn symud eto. Mae gen i dri ffrind, roedd gen i ffrindiau cyn i mi symud. Rwyf wedi symud sawl gwaith (dros 5 o weithiau). Rydw i eisiau gwneud mwy o ffrindiau a hoffwn siarad â fy hen ffrindiau hefyd. Dydw i ddim wir eisiau symud eto.* – plentyn 9-11 oed

Rhannodd y cyfranogwyr mewn ysgolion brofiadau a **safbwyntiau ynghylch adegau pan roedd y mannau hynny neu eu diogelwch personol yn teimlo dan fygythiad**:








> *Mae llawer o ymladd o gwmpas fan hyn. Mae fel yr Hood yma. Yr holl bobl ddrwg yn eu harddegau. Maen nhw'n chwistrellu paent ar draws y lle ac fe wnaethon nhw ddifetha ein siglenni a neidio drostynt. Maen nhw'n dweud*

*wrthyn ni i ddod oddi ar y siglenni. Gallant fynd ymhell i ffwrdd a pheidio â dinistrio parciau'r plant.* – plentyn 9-11 oed

*Rydw i eisiau parc sglefrio nad yw'r bobl ifanc yn ei sbwylio, maen nhw'n ei dyrchu ac yn ceisio ei roi ar dân o hyd.* - plentyn 9-11 oed

Yn y sesiwn yn y feithrinfa, dywedodd un plentyn 'parcio fan'na' gan dynnu sylw at y ffaith mai ychydig iawn o le oedd ar gael i staff a phlant fynd heibio'n ddiogel ar y llwybr:







Fe wnaeth plant eraill dynnu sylw at lwyni oedd wedi gordyfu a oedd yn golygu nad oedd plant yn gallu cerdded ar lwybr heb symud ar y glaswellt (wrth ddal dwylo mewn parau) 'ddim yn hoffi'r pigau'.

Gofynnodd llawer o **blant a phobl ifanc am gynnydd yn nifer, amrywiaeth ac ansawdd y lleoedd i dreulio amser gyda'r teulu**, gan gyfeirio'n benodol at fannau awyr agored a pharciau lleol:










*Dw i eisiau mwy o lefydd i fynd iddyn nhw fel llefydd i fynd ar deithiau cerdded gyda fy nheulu. Fel Pwll Pen y Fan, oherwydd dyw hwnna ddim wrth ymyl y ffordd.* – plentyn 9-11 oed

*Rwy'n hoffi lleoedd dan do fel amgueddfa a pharciau trampolîn. Rwy'n hoffi mynd i lefydd gyda fy nheulu.* – plentyn 9-11 oed

*Diwylliant – Gwell mynediad os gwelwch yn dda, ond rwyf wrth fy modd â'r cyfleoedd yng Nghymru; y cestyll, y theatrau, dawnsio* - Cyfrannwr a addysgir gartref

## Iechyd – gan gynnwys mynediad at iechyd meddyliol a chorfforol da

Erthygl 6: Mae gennych yr hawl i fywyd ac i dyfu i fod yn iach.

Yn y sesiwn rithwir gyda'r CFfI, trafodwyd iechyd meddwl yn fanwl. Dywedodd pobl ifanc fod teimlo wedi'u hynysu oherwydd y pandemig, y cyfryngau cymdeithasol a thlodi

plant yn rhesymau dros iechyd meddwl gwael. (Gweler yr adran "Amrywiaeth a Chynhwysiant" am ddata ar dlodi plant):


> *Mae cymorth iechyd meddwl yn rhywbeth rwy'n wirioneddol angerddol yn ei gylch. Yn fy nhraethawd hir israddedig, ysgrifennais am sut rydyn ni fel cymdeithas yn gyffredinol yn meddwl mai pobl hŷn sydd ddim eisiau dod ymlaen a siarad am y peth - efallai oherwydd agwedd draddodiadol o frathu eich tafod. Fodd bynnag, mewn gwirionedd, canfu fy ymchwil mai pobl ifanc oedd â mwy o stigma tuag at iechyd meddwl, er iddynt gael eu haddysgu cymaint mwy yn ei gylch.* – Cyfrannwr o CFfI
>
> *Mae COVID wedi effeithio ar lefelau iechyd meddwl. Mae iechyd meddwl pobl wedi gwaethygu yn sgil ynysu. Rydyn ni wedi bod y tu ôl i sgrin y cyfrifiadur, ac mae'r unigedd o fod i ffwrdd o'r teulu ac ati wedi gwaethygu'r broblem. –* Cyfrannwr o CFfI
>
> *Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn chwarae rhan enfawr yn iechyd meddwl pobl ifanc – ond yn anffodus ydw i ddim yn gweld sut y gallwn ei blismona'n hawdd mewn gwirionedd. Mae yna rai dulliau amlwg y gellid eu defnyddio. Fel annog pobl ifanc i ddad-ddilyn pobl sydd ddim yn gwneud iddyn nhw deimlo'n hapus. Ond ar ddiwedd y dydd, wn i ddim pwy sydd mewn gwirionedd yn mynd drwy eu cyfryngau cymdeithasol a dad-ddilyn y bobl sydd ddim yn gwneud iddyn nhw deimlo'n dda. Mae'n beth mor fawr yn ein bywydau ac mae'n mynd i fod yn ein bywydau nawr am byth.* – Cyfrannwr o CFfI
>
> *Yn anffodus, rydym yn gweld llawer mwy o'r broblem hon [iechyd meddwl gwael] nag a welwn o ochr bositif y cyfryngau cymdeithasol.* – Cyfrannwr o CFfI
>
> *Un peth y byddwn i'n ei newid pe bawn i'n gallu, pe bai gen i ryw fath o bŵer hud, fyddai sicrhau mai dim ond postio eu bywyd go iawn y gall pobl yn hytrach na'u delfryd berffaith [...] rydyn ni [defnyddwyr cyfryngau cymdeithasol] yn y pen draw yn cymharu ein hunain ac yn teimlo'n anobeithiol.* – Cyfrannwr o CFfI


Awgrymodd y cyfranogwyr y gallai natur helpu i liniaru iechyd meddwl gwael:

> *Rwyf wrth fy modd â chefn gwlad a thraethau – dylai mwy o bobl dreulio mwy o amser y tu allan yn fy marn i – mae hynny'n gwneud pobl yn hapus! -* Cyfrannwr a addysgir gartref

> *Gall pobl fynd allan i fyd natur er mwyn clywed yr adar yn canu ac mae hynny'n eu helpu i dawelu'r meddwl.* – plentyn 9-11 oed

Cafwyd cyfeiriadau gan gyfranogwyr mewn ysgolion am **amseroedd aros a'u hatgasedd at ysmygu** ac o dan y map o'r enw "Beth hoffech chi ei newid am Gymru?" dywedodd un cyfranogwr a addysgir gartref "**Mwy o Ofalwyr**" a "**Mwy o Ofalwyr Gwrywaidd!**":







> *Gall ysmygu effeithio ar eich iechyd, rwy'n gwybod ei fod yn gwneud ichi fod yn gaeth iddo, ond ddylai hyn ddim bod os yw'n effeithio ar eich iechyd. Pam ddylai ysmygu fod yn opsiwn hyn yn oed os yw'n effeithio ar eich ysgyfaint.* – plentyn 9-11 oed
>
> *(Gofynnodd yr hwylusydd: Beth hoffech chi ei newid?) Pan fyddwch chi'n mynd i'r ysbyty mae yna giwiau enfawr.* – plentyn 9-11 oed

## Mynediad at wasanaethau

Erthygl 29: Eich hawl i fod y gorau gallwch fod.

Roedd **cau gwasanaethau** a **chanoli cyfleusterau, diffyg tai fforddiadwy** a **chysylltiad gwael â'r rhyngrwyd** ymhlith amrywiaeth o bethau yr oedd pobl ifanc yn teimlo eu bod yn eu hatal rhag bod y gorau y gallent fod.

Teimlai cyfranogwyr o grŵp y CFfI y **dylai dyfodol Cymru ganolbwyntio ar blant a phobl ifanc yn bennaf**. Sicrhau bod gan y grŵp hwn y sicrwydd a'r gefnogaeth i allu tyfu'n hŷn a byw yn eu hardal leol gan eu bod yn teimlo bod llawer o wasanaethau'n cael eu canoli neu eu cau. Ategwyd hyn gan rai cyfranogwyr iau a oedd yn ymwybodol o gau ysbytai neu'r angen i gael gwasanaethau mwy lleol:

> *Rwy'n meddwl bod gan ffermwyr ifanc weledigaeth o greu Cymru well ar gyfer dyfodol pobl ifanc [...] Mae angen i ni wneud yn siŵr bod y dyfodol yn saff ac yn sicr iddynt o ran gallu gweithio ym myd amaethyddiaeth. Mae llawer o bobl ifanc yn symud i ffwrdd o amaethyddiaeth ac yn gadael ardaloedd gwledig gan nad ydynt yn gallu fforddio byw yn yr ardaloedd hynny [...] Rydym wedi clywed am ysgolion bach lleol yn cau, ac rydym yn colli'r cymunedau hynny yn yr ardaloedd hyn. Rwy'n gwybod bod fy ysgol leol i yn fan hyn wedi cau, ac mae'n teimlo fel eich bod yn colli'r gymuned.* – Cyfrannwr o CFfI
>
> *Rydw i'n meddwl ei bod yn bwysig cael rhywbeth i ddod â'r bobl ifanc hynny yn ôl i'r ardaloedd yma.* – Cyfrannwr o CFfI
>
> *Rhoddais ysgol ar y map hefyd er mwyn i mi allu cerdded iddi, ac mae'n rhaid i dad godi'n gynnar iawn yn y bore i deithio i'r gwaith. Byddwn yn hoffi pe bai gennyn ni bopeth o fewn cerdded, fel ysgol leol a swyddi.* - plentyn 9-11 oed

Roedd ymdeimlad bod **y cyfranogwyr yn ddiolchgar am eu hamgylchedd gwledig** ond hefyd eu bod **yn awyddus i gael cydbwysedd da wrth ei rannu gyda phobl sy'n dod o'r tu allan i'r ardal**. Eu rhesymau am hyn oedd i sicrhau parch at yr ardal a diogelwch y bobl leol a'r economi leol.

> *Dwi'n lwcus yn yr ardal dwi'n byw ynddi. Dwi'n byw mewn ardal wledig o Gymru ac rydym wedi bod yn ffodus iawn drwy gydol cyfnod COVID. Mae hynny wedi gwneud i mi werthfawrogi llawer mwy o'r hyn sydd o'm cwmpas.* – Cyfrannwr o CFfI
>
> *(Gofynnodd yr hwylusydd: Sut ydych chi'n teimlo am fyw yma yn yr haf?) Mae sawl peth gwych am yr haf, ond mae llawer gormod o dwristiaid.* – plentyn 9-11 oed

*Rydyn ni eisiau i'n tref ni beidio â bod mor flêr. Mae twristiaid yn dod ac yn gadael eu sbwriel* - plentyn 9-11 oed

Rhannodd y grŵp **siom ynghylch y seilwaith yn ymwneud â mynediad at y rhyngrwyd mewn ardaloedd gwledig**. Fe wnaethant egluro sut mae hyn yn cyfyngu ar eu bywydau a'u gallu i aros yn yr ardaloedd gwledig hyn oherwydd nad ydynt yn gallu gweithio'n llwyddiannus gartref, rhywbeth y maent wedi sylwi sy'n fwy cyffredin yn ddiweddar. Codwyd pryderon ganddynt hefyd ynghylch diogelwch personol pan oedd ganddynt ddiffyg signal mewn ardaloedd gwledig:

*Bydd mynediad i'r rhyngrwyd yn rhywbeth sy'n effeithio ar benderfyniad pobl ifanc i aros mewn ardaloedd gwledig. Oni bai ein bod yn gallu datrys hynny, bydd yn rhaid i bobl symud i ffwrdd o'u hardaloedd oherwydd na allant weithio gartref cystal â rhywun mewn ardal drefol.* – Cyfrannwr o CFfI

*Yr hyn nad wyf yn ei hoffi am Gymru yw'r broblem â'r we a signal ffôn. Fel rhywun sy'n gweithio gartref ar hyn o bryd, mae'n boendod weithiau. Ond hefyd, fe wnaeth i mi deimlo'n llai diogel mynd ar deithiau cerdded yn fy ardal […] Weithiau roedd hyn yn fy atal rhag mynd ar y teithiau cerdded hynny.* – Cyfrannwr o CFfI

**Codwyd materion yn ymwneud â thai fforddiadwy,** gyda phryderon fod pobl ifanc yn gorfod gadael yr ardaloedd y cawsant eu magu ynddynt:

*Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig iawn yn ystod y pum mlynedd nesaf yn y Senedd fod Aelodau'n gwneud yn siŵr y gofelir am bobl ifanc a bod pobl ifanc sydd wedi bod yn yr ardaloedd hynny dros y blynyddoedd yn gallu aros yn eu hardal. Neu mae cefn gwlad Cymru yn mynd i fod yn debycach i ardal i bensiynwyr yn unig. Mae lle i'r ddau grŵp oedran ym mhob ardal, ond rwy'n meddwl bod angen blaenoriaethu'r cymorth i'r genhedlaeth iau ar gyfer dyfodol Cymru.* – Cyfrannwr o CFfI

*Gan fy mod yn 22 oed nawr, rydw i yn y grŵp oedran a fyddai fel arfer yn edrych i brynu tŷ ond gyda phrisiau tai yn codi ac ati, mae hynny'n profi'n anodd iawn. Rwy'n gwybod y gallai'r mater hwn fod yn anodd ei ddatrys dros bum mlynedd oherwydd mae hynny'n waith mawr, ond gallaf weld nad yw ond yn mynd yn anoddach ac yn anoddach, gyda phobl ar eu gwyliau yn dod yma drwy'r amser. Prisiau uwch gydag ail gartrefi. Mae'n beth anodd ei gydbwyso yng Nghymru oherwydd dydyn ni ddim am wahanu ein hunain oddi wrth weddill y wlad. Rydyn ni eisiau i bobl ddod yma. Rydyn ni eisiau'r hwb economaidd hwnnw a'r arian gan y rhai sydd ar eu gwyliau. Ond dydyn ni ddim am i'r bobl hynny gymryd ein tai.* – Cyfrannwr o CFfI

Esboniodd un cyfranogwr ei fod yn teimlo o dan anfantais gan ei fod wedi dod yn weithiwr proffesiynol, er mai dyma sydd ei angen ar gymdeithas. Roedd hyn yn golygu ei fod wedi **'colli ei annibyniaeth'**:

> *Fel rhywun a aeth i'r brifysgol ac felly na chafodd gyflog o 16 oed hyd nes nawr (22 oed) mae'n ei gwneud hi'n anoddach fyth i brynu tŷ. Dim ond 20 oed yw fy mrawd, ac mae'n prynu tŷ ar hyn o bryd, ond dim ond gan ei fod wedi gweithio'n syth ar ôl gorffen yn yr ysgol. Gan fy mod wedi mynd i'r brifysgol, rydw i dan anfantais er bod gen i swydd broffesiynol. Does gen i ddim annibyniaeth oherwydd fy mod yn dal i fyw gartref. Efallai bod hyn yn adlewyrchiad o gyflogau presennol hefyd. Gan fy mod i'n gwneud swyddi sy'n aros ar yr isafswm cyflog. Rydyn ni [cymdeithas] yn ei gwneud hi'n anodd i bobl sy'n mynd i'r brifysgol ddod allan y pen arall mewn sefyllfa ariannol dda, ond rydyn ni [cymdeithas] angen i bobl fynd i'r brifysgol i ennill y graddau a'r sgiliau angenrheidiol oherwydd y bobl hyn yw'r dyfodol. Nhw fydd yr athrawon a fydd yn addysgu ein plant*. – Cyfrannwr o CFfI

## Addysg a'r Gymraeg

**Erthygl 28: Eich hawl i ddysgu a mynd i'r ysgol.**

Yn gyffredinol, **mynegodd y bobl ifanc eu bod yn fodlon â'u haddysg.**


> *Mae gan ein hysgol lawer o egni, mae'n braf ac yn bositif, maen nhw'n neis pan mae pobl yn drist* – plentyn 9-11 oed

Isod, ceir person papur dwy-ochr a greodd un cyfranogwr i gynrychioli ei 'arwr' o athro.






Cyflwynodd aelod o CFfI y llun hwn gan ddweud bod ysgolion yn rhywbeth mae'n ei hoffi am Gymru:



Roedd cyfranogwyr a oedd yn cael addysg gartref am weld **mwy o gyllid tymor hir ar gyfer addysg yn y cartref** ac fe wnaethant ofyn am **arholiadau am ddim** a **gwersi Cymraeg am ddim**.

Trafodwyd **prentisiaethau** yn sesiwn y CFfI. Roedd y cyfranogwyr yn teimlo, er eu bod yn angenrheidiol, bod angen mwy o strwythur arnynt ac y dylent **gael eu hasesu yn ôl y galw o safbwynt y cyflogwr a'r prentis**:

> *Rwy’n meddwl bod prentisiaethau yn rhan hanfodol o ardaloedd gwledig a dweud y gwir. Gyda phrentisiaethau, beth sy’n bwysig yw cael y prentisiaethau cywir yn y lleoedd cywir. Achos rydyn ni'n gweld llawer o bobl yn mynd am brentisiaethau ond efallai nad ydyn nhw'n ddigon hen i yrru. Efallai eu bod yn ddigon hen i yrru, ond nad ydynt yn gallu gyrru. Mae dal bws ar yr amser cywir i'r lle cywir yn gwbl amhosibl yn ein hardal ni beth bynnag. Fel arfer dydyn nhw ddim yn cyrraedd o gwbl, neu maent yn cyrraedd ddwy awr yn rhy hwyr.* – Cyfrannwr o CFfI

Trafodwyd y **cyfryngau cymdeithasol** hefyd, gyda'r pwyslais ar **eu cynnwys yn y cwricwlwm** er mwyn lliniaru iechyd meddwl gwael:

> *Rwy’n bendant yn meddwl ei bod yn bwysig i gyfryngau cymdeithasol fod yn rhan o’r cwricwlwm, ond rwyf wedi gweithio mewn ysgol lle neilltuwyd amser ar gyfer siarad am y pwnc hwn, ond roedd eu tiwtor dosbarth yn hen ddyn nad oedd yn deall y cyfryngau cymdeithasol a’i effeithiau. Felly mae'n bwysig cael cydbwysedd o ran sut i gyfleu'r neges honno'n gywir a chael y plant i gymryd sylw ohoni.*– Cyfrannwr o CFfI

**Roedd pobl ifanc yn gadarnhaol am addysg Gymraeg**:

> *Rydyn ni eisiau i fwy o Gymraeg gael ei chynnwys yn y byd*. – plentyn 9-11 oed
>
> *Rwy’n caru'r iaith!!! Mwy o weithgareddau Cymraeg*. - Cyfrannwr a addysgir gartref

## Amrywiaeth a chynhwysiant

**Erthygl 3: Dylai pob sefydliad sy’n ymwneud â phlant bob amser wneud yr hyn sydd orau i bob plentyn.**

Fe wnaeth pynciau **hiliaeth a chydbwysedd rhwng y rhywiau** godi mewn sawl grŵp, yn bennaf gyda cheisiadau i **'stopio hiliaeth'** neu lle'r oedd cyfranogwyr am amlygu eu bod **yn teimlo bod y pynciau hyn yn 'dal' yn broblem**. Cododd y pwnc hwn ar lafar ac yn weledol:




*Rwyf eisiau mwy o gynwysoldeb o ran rhywedd a hil* – person ifanc a addysgir gartref

*Dywedais fod bywydau du yn bwysig oherwydd ei fod yn fater pwysig.* – plentyn 9-11 oed

*Rwy'n meddwl mewn ysgolion eu bod nhw [teuluoedd a phlant tlotach] yn gallu cael eu trin yn wahanol. O fy mhrofiad i, efallai nad yw'r ysgol yn edrych allan amdanyn nhw gymaint â disgyblion eraill gan fod ganddyn nhw anghenion addysgol arbennig ac ati, ac wedyn maen nhw'n wynebu sefyllfaoedd anffafriol pan maen nhw'n hŷn ac yna'n costio arian ychwanegol i Gymru yn anffodus, oherwydd dylai cymdeithas fod wedi ymyrryd yn gynharach yn hytrach nag ymyrryd ar adeg o argyfwng.* – Cyfrannwr o CFfI

*Nid mater i ysgolion yn unig yw cynwysoldeb. Mae'n cynnwys y gymuned. Mae'n ein cynnwys ni fel cenhedlaeth iau a'r cenedlaethau hŷn sy'n byw mewn cymunedau gwledig.* – Cyfrannwr o CFfI

*Rwyf wedi gweld newid mawr o ran menywod mewn amaethyddiaeth yn ystod y 5 i 10 mlynedd diwethaf. Rwy'n meddwl bod y gwerthfawrogiad o'r*

> *gwaith y mae menywod yn ei wneud o fewn amaethyddiaeth yn dod yn nes at fod yn gyfartal â dynion. […] Rydyn ni wedi gweld yr undebau yn gwneud llawer o waith yn dangos beth mae menywod yn ei wneud mewn amaethyddiaeth. Ond yn fy marn i ddylen ni ddim gorfod gwneud hynny, fe ddylai'r sefyllfa fod yn gyfartal erbyn hyn heb fod ots pa ryw ydych chi, oherwydd ar ddiwedd y dydd gallwn ni gyd wneud y gwaith. Rwy'n falch o ddweud ei fod yn mynd i'r cyfeiriad cywir.* – Cyfrannwr o CFfI

Hefyd, gan gyfeirio at Erthygl 27: Eich hawl i safon dda o fywyd, trafodwyd tlodi plant. Roedd plant yn bryderus bod tlodi plant yn dal yn gyffredin a mynegwyd sut yr oeddent yn teimlo ei fod yn effeithio ar blant a phobl ifanc heddiw:

> *Rwy'n meddwl ei bod yn ddrwg nad oes gan rai plant arian i gael beic.* – plentyn 9-11 oed
>
> *Mae'n rhaid i mi feicio i gyrraedd yr ysgol, mae'n iawn gan nad yw'r traffig yn ddrwg. Dylai mwy o bobl feicio i'r ysgol ond ni all pawb fforddio beic, dylem wneud rhywbeth am hynny.* – plentyn 9-11 oed
>
> *Creu mwy o swyddi a rhoi mwy o arian (gofynnodd yr hwylusydd: Beth wyt ti'n ei olygu, mwy o swyddi a swyddi sy'n talu'n well?) Ie, fel nad yw pobl yn mynd yn ddigartref fel y gallant fforddio'r hyn sydd ei angen arnynt.* – plentyn 9-11 oed
>
> *Rwy'n teimlo bod COVID wedi gwahanu pobl rhag bod yn bobl sy'n gallu fforddio gliniadur, a phobl na all fforddio gliniadur, yn enwedig i bobl ifanc. Pan nad oes ganddynt liniadur, dydyn nhw ddim yn gallu ailgydio yn eu gwaith ysgol mor hawdd ac mae hyn yn ei gwneud yn fwy anodd pan fyddant yn mynd yn ôl i'r ysgol. Rwy'n gweithio mewn ysgol ac rwyf wedi gweld pa mor bell ar ei hôl hi y mae rhai plant wedi bod oherwydd na allant fforddio gliniadur, ac mae hynny'n effeithio'n wirioneddol ar eu hiechyd meddwl, nid yn unig oherwydd eu bod yn gallu gweld eu bod ar ei hôl hi, ond oherwydd eu bod yn gallu gweld na allant fforddio un fel pobl eraill. Maen nhw'n gwybod eu bod nhw wedi colli allan ar ddau fis o addysg ac maen nhw'n gofyn i'w hunain "Ble ydw i'n mynd i fod yn y dyfodol? Beth yw'r pwynt gwneud ymdrech ar gyfer fy nyfodol?" A gall yr agwedd hon achosi i'r sefyllfa fynd o ddrwg i waeth.* – Cyfrannwr o CFfI

## Trafnidiaeth a chysylltedd

**Roedd y cyfranogwyr eisiau gwell trafnidiaeth gyhoeddus**, gan gyfeirio'n benodol at **well seilwaith trenau, trafnidiaeth gyhoeddus a mwy o geir trydan** (gweler y sylwadau uchod):











Roedd y dyfyniad hwn yn ymwneud â'r map uchod ar y chwith:

> *Mae angen gwell trenau a ffyrdd. Rydyn ni'n rhoi mwy o orsafoedd trên ar ein map fel bod pobl yn gallu cael y trên yn lle gyrru. Mi allai pob trac ar hyd a lled Cymru gysylltu â'i gilydd.* – plentyn 9-11 oed

Cyfeiriwyd hefyd at gysylltiadau ffyrdd y de a'r gogledd (gweler y map uchod ac ar y dde):

> *Es i fyny i Ogledd Cymru am daith feicio fawr. Cymerodd am byth ac roedd y ffordd yn ddrwg iawn i gyrraedd yno.* – plentyn 9-11 oed


# Atodiad A:




Uchod: Enghraifft o fap a grëwyd gyda'r grŵp addysg gartref

Isod: Llun manwl o enghraifft o fap a grëwyd gyda'r grŵp addysg gartref






Uchod: Enghraifft o fap a grëwyd gyda'r grŵp addysg gartref

Isod: Uchod: Enghraifft o fap a grëwyd gyda’r lleoliad meithrin






Uchod ac isod: Enghreifftiau o fap a grëwyd gyda’r grwpiau ysgol

